

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

22/2016

DYDDIAD CYHOEDDI:

23/03/2016

Gwerthusiad o Gynllun Tai Gwasgaredig Bro Morgannwg

Crynodeb Gweithredol

1. Nodau a methodoleg yr ymchwil

- 1.1 Fel rhan o brosiect Bwrdd darparu Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau Agored i Niwed Llywodraeth Cymru (ESVG) i weld pa mor integredig oedd iechyd, tai, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector nodwyd Cynllun Tai Gwasgaredig (DHS) arfaethedig ar gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl difrifol a pharhaus fel enghraifft o arfer da mewn dull cydweithredol ac integredig i sicrhau llety a chymorth ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl yn eu cymunedau cartref.
- 1.2 Er mwyn cefnogi'r prosiect newydd hwn comisiynwyd gwerthusiad byr o'r Cynllun Tai Gwasgaredig gan Fwrdd Gwasanaethau Effeithiol ar gyfer Grwpiau Agored i Niwed Llywodraeth Cymru. Defnyddiodd yr ymchwil ddull cyfranogol, gan gynnwys rhanddeiliaid y prosiect i ddatblygu theori newid y model gwasanaeth a model rhesymeg, a ddefnyddiwyd wedyn fel y fframwaith ar gyfer y gwerthusiad.
- 1.3 Dyluniwyd y gwerthusiad i:
 - Edrych ar weithrediad y cynllun ac i asesu a yw'r prosiect yn gweithredu fel y disgrifiwyd gan y model rhesymeg.
 - Edrych ar i ba raddau y mae'r cynllun yn cyfrannu at y canlyniadau sydd mewn golwg yn y model rhesymeg.
 - Nodi pa wersi a ddysgwyd ar gyfer y cynllun a'r goblygiadau ar gyfer ei gynaliadwyedd a'i gyflwyno'n ehangach yn y dyfodol.
- 1.4 Cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb a rhanddeiliad allweddol staff sy'n darparu'r gwasanaeth a chleientiaid.

2. Cynllun Tai Gwasgaredig Bro Morgannwg

- 2.1 Mae Cynllun Tai Gwasgaredig Bro Morgannwg yn cynnwys grŵp amlasiantaethol a ddaeth at ei gilydd i ganolbwyntio ar gytuno ar fodel gwasanaeth sy'n briodol i anghenion pobl gyda phroblemau iechyd meddwl ym Mro Morgannwg. Mae Gofal yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm IRIS (Gwasanaeth Adsefydlu ac Integreiddio Dwys) ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro i asesu cleientiaid addas ar gyfer y cynllun; ac yna'n cydweithio i ddatblygu a darparu gofal a chymorth ar gyfer cleientiaid sydd wedi cael tenantiaeth eu hun mewn fflat un ystafell wely yn y Barri.
- 2.2 Daeth y partneriaid amlasiantaethol i gyd-ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n eu hwynebu yn y Fro a'r angen am y gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Bod angen gwneud y cysylltiadau rhwng iechyd a thai.
 - Oedi wrth drosglwyddo gofal mewn lleoliadau NHS, y pwysau ar adnoddau claf-mewnol, yr angen i leihau costau sy'n gysylltiedig â chymorth Gofal Iechyd Parhaus, a darpariaeth amhriodol o gymorth.
 - Angen gofal wedi'i arwain gan ddefnyddwyr gwasanaethau , ac angen darparu gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn eu cymuned eu hunain.
 - Diffyg gwasanaethau cydgysylltiedig yn effeithio'n niweidiol ar daith cymorth a gofal defnyddwyr gwasanaeth.

3. Prif ganfyddiadau

- 3.1 Mae model gweithio'r cynllun o ddarparu gwasanaethau integredig a chydweithredol wedi bod yn llwyddiannus hyd yma. Ceir tystiolaeth o:
- allu'r cynllun i ddarparu gofal person-ganolog a chyd gysylltiedig i unigolion â phroblemau iechyd meddwl lefel uwch; a'r
 - gallu i ddarparu'r gwasanaethau hyn o fewn amgylcheddau cartref cleientiaid a heb risg na ellir eu rheoli i'w iechyd meddwl neu eu tenantiaeth.
- 3.2 O safbwynt y cleientiaid mae hefyd tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol yn y cyfnod cynnar hwn:
- Ers dechrau'r cynllun ni dderbyniwyd cleient yn ôl i'r ysbyty oherwydd llithro'n ôl i gyflwr iechyd meddwl ers dechrau'r cynllun.
 - Adroddodd staff bod natur integredig y gofal yn caniatáu iddynt fynd ar drywydd materion cyn iddynt waethygu a throi'n argyfwng.
 - Ymddengys fod y model yn caniatáu darpariaeth ymyriadau mwy priodol a mwy prydlon ac mae'r hyblygrwydd yn caniatáu ymdrin â sefyllfaoedd a allai fod yn niweidiol yn fwy effeithiol.

- Mae'r dadansoddiad yn edrych ar ystod eang o ganlyniadau ar lefel gwasanaeth a lefel defnyddiwr gwasanaeth ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod y cynllun yn ymddangos yn cyrraedd y canlyniadau ac amcanion a fwriedir. Er enghraifft:
 - Gwelliannau o ran annibyniaeth a hyder defnyddwyr gwasanaeth.
 - Amgylchedd yn sefydlogi. Mae llawer o'r cleientiaid wedi arwain bywydau a nodweddir gan fethiant a chyfnodau mewn gofal aciwt. Mae'r gofal integredig a ddarperir yn gallu torri ar sefyllfaoedd sy'n gallu gwaethygu a throi'n argyfwng os na chânt eu dal yn ddigon cynnar.
 - Gwelliannau defnyddwyr gwasanaeth mewn iechyd meddwl, sgiliau byw, iechyd corfforol a hunanofal, a chyfrifoldebau.

3.3 Gallai'r cynllun fod yn gynaliadwy a'i ailadrodd mewn ardaloedd a lleoliadau eraill. Fodd bynnag, ceir nifer o ffactorau a allai gyfyngu ar gynaliadwyedd y cynllun, gan gynnwys:

- Diffyg tai addas un ystafell wely (oherwydd newidiadau i'r system budd-daliadau a'r dreth ystafell wely a fydd yn arwain at gyfyngderau mewn llety un gwely sydd ar gael).
- Parhad cyllid Cefnogi Pobl.
- Pwysau ar y tîm IRIS i ddarparu mwy o wasanaethau.
- Diffyg llwyfan cyffredin ar gyfer rhannu data rhwng y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaeth.

4. Argymhellion

4.1 Mae angen profi mwy ar y gwasanaeth hwn a modelau 'cymorth fel bo angen' (floating support) tebyg eraill i asesu canlyniadau mwy hirdymor y dulliau integredig, ar gyfer y gwasanaeth a'r defnyddwyr fel ei gilydd. Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus ystyried cymhwyso'r model gweithio hwn i leoliadau eraill lle gallai unigolion gydag anghenion dwys elwa o dderbyn gofal person-ganolog, integredig, e.e. camddefnyddio alcohol a sylweddau. Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus ymchwilio cymhwyso ac ailadrodd y model gweithio mewn lleoliadau eraill gan edrych yn benodol ar integreiddio gwasanaethau iechyd a thai, ac ymchwilio i fodolau ariannu eraill ar gyfer ehangu'r model hwn yn y fan a'r lle ac mewn lleoliadau/ardaloedd eraill. Bydd hefyd yn bwysig ystyried yr heriau a achosir gan anghenion rhannu data.

Adroddiad ymchwil llawn: Gwerthusiad o Gynllun Tai Gwasgaredig Bro Morgannwg ar gael yn:
<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-vale-glamorgan-dispersed-housing-scheme/?lang=cy>

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Heledd Jenkins

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost Heledd.Jenkins2@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 ISBN digidol 978-1-4734-6222-9